WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Ms Alison Ward CBE
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Swyddfeydd y Cyngor
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

**Cyfeirnod** 624A2012
**Dyddiad** 7 Rhagfyr 2012


Annwyl Alison

# Llythyr Asesiad Gwella

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r prif gasgliadau sy'n deillio o'm gwaith mewn perthynas ag adrodd ar wella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur). Mae'n ofynnol i mi adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu mewn perthynas ag a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Ymhellach i'm llythyr Asesiad Gwella cyntaf ar 4 Medi 212, mae'r ail lythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran
- adrodd ar wella;
- fy marn i, a barn rheoleiddwyr perthnasol, ar ba mor ddibynadwy yw hunanwerthuso'r Cyngor; a
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu fy argymhellion.

Ymhellach at hyn, byddaf yn parhau i wneud gwaith pellach ar y trefniadau sy'n cefnogi gwaith rheoli perfformiad y Cyngor ac yn adrodd dros y misoedd canlynol.

Byddaf yn crynhoi fy ngwaith i gyd a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2012-13 ac yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer y Cyngor erbyn diwedd mis Mawrth 2013.

**Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar wella o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn gweithredu yn fwy unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru.**

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- Cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ei adroddiad *Ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2011-12* (yr Adroddiad Perfformiad) cyn 31 Hydref 2012.
- Mae'r Adroddiad Perfformiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2011-12) ac yn amlinellu'n glir sut mae'r Cyngor wedi mynd ati i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur.
- Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys manylion am berfformiad fel y'i mesurwyd
- gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol.
- Mae crynodeb byr o ganfyddiadau allweddol Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a gwaith rheoleiddio Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad, ac mae'r wybodaeth a adroddir yn rhoi crynodeb cytbwys o'r canfyddiadau allweddol. Mae'r Cyngor hefyd yn rhoi dolenni gwefannau i alluogi darllenwyr weld yr adroddiadau, gan gynnwys adolygiadau o wasanaethau, ac mae'n nodi'n fyr sut maent yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a'r argymhellion.
- Mae'r Adroddiad Perfformiad ar gael i'w lawrlwytho yn Gymraeg neu Saesneg o wefan y Cyngor, a gellir darparu copi caled, yn ogystal â fersiynau mewn fformatau eraill fel Braille a sain, o wneud cais. Mae hyn yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor.
- Mae crynodebau penodol o'r Adroddiad Perfformiad yn Gymraeg ac yn Saesneg wedi'u llunio yn ogystal. Gellir lawrlwytho'r rhain o wefan y Cyngor, ac mae wedi'u cynnwys yn rhifyn mis Rhagfyr o *Torfaen Talks*.
- Aeth y Cyngor ati i ymgynghori â thrigolion Torfaen ym mis Tachwedd 2011 er mwyn blaenoriaethu meysydd i'w gwella yn y dyfodol, ac mae'n parhau i weithio gyda *Phanel Pobl Torfaen* i adolygu polisïau a herio perfformiad.

Mae angen i'r Cyngor hefyd weithredu'n fwy unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru ac rwyf wedi nodi nifer o feysydd lle gall y Cyngor wella'i Adroddiad Perfformiad:

- Nid yw Adroddiad Perfformiad y Cyngor ar gael yn hwylus i ddinasyddion a gellid gwneud mwy i sicrhau bod dinasyddion yn ymwybodol o asesiad y Cyngor o'i berfformiad. Er bod y Cyngor wedi trefnu fod ei Adroddiad Perfformiad ar gael ar ffurf copi caled, yn electronig ac i'w lawrlwytho o'i wefan, mae'r adroddiad nifer o haenau o dan y dudalen gartref. Adeg ei lansio cafodd ei hyrwyddo ar y sgrin gartref, ond dim ond os ydych yn gwybod beth i chwilio amdano y gallwch ddod o hyd iddo bellach.

- Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys adran ar brif brosiectau cydweithredu fel y Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg a chludiant ar gyfer dysgwyr ôl-16 ar ôl-troed rhanbarthol Gwent. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o brosiectau isranbarthol penodol eraill fel y gwasanaeth tai a rennir a gwasanaeth budd-daliadau'r dreth gyngor a phrosiectau ehangach Cymru gyfan. Er bod y wybodaeth gryno yn rhoi cipolwg ar weithgarwch presennol, nid yw'n adrodd ar beth fu buddion gwirioneddol y gweithgarwch cydweithredu hyd yma, fel unrhyw arbedion arian neu pa un a lwyddir i gyflawni'r deilliannau a fwriadwyd o'r cydweithredu.

## Mae trefniadau corfforaethol da gan y Cyngor ar gyfer rheoli perfformiad, ond mae gwendidau yn ansawdd rhai mesurau a thystiolaeth a ddefnyddir gan wasanaethau i farnu gwelliant yn cyfyngu ar effeithiolrwydd ei drefniadau hunanwerthuso

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Ionawr 2012 rhestrais ystod o ddiffygion yn y modd y mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gwerthuso'i berfformiad; roedd angen mynd i'r afael â hyn er mwyn cryfhau atebolrwydd i ddinasyddion. Canfu fy arolwg o Adroddiad Perfformiad y Cyngor a'r systemau mae wedi'u sefydlu i oruchwylio a gwerthuso'i berfformiad ei hun yn 2011-12, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran gwella rheoli perfformiad, adrodd a gwerthuso, nid yw'r Cyngor wedi mynd i'r afael â phob un o'r gwendidau a nodais yn flaenorol.

### Mae fframwaith corfforaethol da gan y Cyngor ar gyfer rheoli a herio'i berfformiad, ond mae angen cryfhau rôl y Pwyllgor Craffu yn goruchwylio ac yn barnu sut mae gwasanaethau'n cyflawni'r Amcanion Gwella

Mae proses Cynllunio Gwelliant Gwasanaethau'r Cyngor yn gweithredu fel y cyswllt rhwng blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ac Amcanion Gwella a gwaith gwasanaethau, timau ac unigolion i reoli gwelliant. Mae yna wyth o Gynlluniau Gwella Gwasanaethau (CGG) ac mae'r rhain yn cwmpasu holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r broses CGG wedi'i seilio ar yr egwyddor 'Edau Euraidd' sydd am geisio sicrhau bod pob swyddog sy'n gweithio i'r Cyngor yn gallu gweld sut mae ei weithredoedd yn cyfrannu at waith y sefydliad a chyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol. Yn wir, gwelsom dystiolaeth dda o'r 'Edau Euraidd' hon a'r cysylltiad rhwng blaenoriaethau corfforaethol â chynlluniau gwasanaethau a chynlluniau tîm.

Mae'n amlwg o fewn y Cyngor fod rheoli perfformiad yn cael ei weld fel elfen bwysig ac angenrheidiol, ac fe'i defnyddir yn weithredol i gynorthwyo rheolwyr i wella perfformiad a'r gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu cyflwyno. Canfuom fod y Cyngor wedi creu tîm polisi canolog cadarn sy'n goruchwylio, cydlynu, archwilio ac yn rheoli perfformiad yn weithredol. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i roi system gyson y mae pawb yn ei deall ar waith ar gyfer rheoli perfformiad. Caiff gwybodaeth am berfformiad ei chasglu, ei thrin a'i hadrodd drwy Ffynnon, sydd wedi'i ymgorffori a'i defnyddio'n helaeth ar draws y Cyngor. Mae staff yn yr adran gwasanaethau yn cydnabod eu bod yn gyfrifol am eu perfformiad,ac

maent yn deall sut mae eu gwaith yn ymwneud â chyflawni Amcanion Gwella'r Cyngor a blaenoriaethau corfforaethol.

Cefnogir pob Amcan Gwella gan gyfres o weithgareddau a mesurau sy'n cael eu rheoli a'u cyflawni gan y maes gwasanaeth priodol, a'u monitro trwy gydol y flwyddyn fel rhan o fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Yn bwysig, mae'r Cyngor wedi cyflwyno prosesau herio mewnol allweddol o fewn y system hon i herio a rheoli gwelliant. Mae'r Cyngor wedi creu Aelod Gweithredol ar gyfer Perfformiad sy'n cyfarfod â deiliaid Portffolio'r Cabinet a Phenaethiaid Gwasanaeth i adolygu perfformiad a chyflawni blaenoriaethau CGG bob chwarter. Yn yr un modd, mae'r Prif Weithredwr yn cynnal cyfarfodydd her gyda Phenaethiaid Gwasanaeth i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â thanberfformio. Mae'r rhain yn systemau da i ganolbwyntio ar reoli a gwella gwaith y Cyngor.

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Ionawr 2012 nodais nad yw'r Cyngor yn adrodd am gynnydd yn gyson o ran cyflawni Amcanion Gwella a pherfformiad ehangach gwasanaethau i'w bwyllgorau craff. Yn gadarnhaol, canfuom fod Adroddiad Perfformiad 2011-12 yn tynnu sylw at bwysigrwydd her a'r rôl allweddol sy'n cael ei chwarae gan y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu o ran dwyn y Cabinet a'r Cyngor i gyfrif. Canfu ein gwaith maes, fodd bynnag, nad yw'r Cyngor yn mynd ati'n gyson o hyd i adrodd ar gyflawni Amcanion Gwella.

Er enghraifft, er i flaenraglen waith 2011-12 ar gyfer y Trosolwg Cymunedau Mwy Diogel a'r Pwyllgor Craffu nodi fod adroddiad ar gynnydd o ran cyflawni Amcanion Gwella'r Cyngor i'w gyflwyno i'r Pwyllgor, canfuom na ddigwyddodd hyn. Mae hyn yn cyfyngu'r cyfle i herio a chraffu'n annibynnol ar wasanaethau ac yn gwanhau atebolrwydd. Mae cyfleoedd yno o hyd felly i'r Cyngor gryfhau ei her fewnol o fewn gwasanaethau ac ar draws gwasanaethau, a chan gynghorwyr drwy'r Pwyllgor Craffu. Mae'r Cyngor yn rhoi trefniadau newydd ar waith ar gyfer Craffu, gan ddechrau gyda'i gylch o gyfarfodydd ym mis Ionawr 2013 sy'n cryfhau'r gwaith y Cynghorwyr yn adrodd am berfformiad a chraffu. Byddwn yn adolygu'r system newydd hon ac yn adrodd yn ôl ar ei heffeithiolrwydd yn y dyfodol.

**At ei gilydd, mae strwythur da i Adroddiad Perfformiad y Cyngor ac mae'n hawdd ei ddarllen, er mai cyfyngedig yw'r gwerthusiad o gamau gweithredu ar gyfer rhai Amcanion Gwella, ac mae hynny'n gwanhau atebolrwydd ac yn rhwystro ei allu i farnu cynnydd ac effaith yn effeithiol**

Canfuom fod yr Adroddiad Perfformiad wedi'i gyflwyno'n glir, yn hawdd ei ddarllen ac yn defnyddio strwythur adrodd cyson i werthuso ac adrodd ar berfformiad ar gyfer pob un o'r 25 o Amcanion Gwella. Mae'r Amcanion gwella yn drawsbynciol ac yn cydnabod ac yn hyrwyddo integreiddio ar draws gwasanaethau ac adrannau er mwyn cyflawni'r gwelliant a fwriadwyd yn effeithiol.

Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys gwybodaeth dda am reoli cyllideb, gwariant refeniw a gwariant cyfalaf, a chanlyniadau rhaglenni arbedion. Mae'r Adroddiad Perfformiad hefyd yn cysylltu rhaglen wella'r Cyngor a'i themâu a'i flaenoriaethau craidd, ac mae hyn yn rhoi ymdeimlad i'r darllennydd o'r heriau mae'r Cyngor yn eu hwynebu a'i werthoedd a'i egwyddorion sylfaenol.

Canfuom dystiolaeth o berchenogaeth ac atebolrwydd ar gyfer cyflawni gweithgareddau o fewn gwasanaethau unigol, a bod gan bob gwasanaeth, adran ac unigolyn ran allweddol i'w chwarae i sicrhau bod yr Amcanion Gwella hyn yn cael eu bodloni. Mae hyn yn gadarnhaol, gan fod y Cyngor wedi mabwysiadu agwedd holistaidd at ei Amcanion Gwella ac wedi nodi'r cyfraniad a wna pob gwasanaeth at gyflawni blaenoriaethau strategol. Fodd bynnag, canfuom o ran rhai Amcanion Gwella fod y naratif yn canolbwyntio ar farnu cyfres o weithredoedd yn hytrach na chrynhoi crynswth perfformiad wrth gyflawni'r Amcanion Gwella, ac nid yw'n galluogi'r Cyngor i farnu pa mor dda mae'n gwneud a'r effaith mae'n ei chael.

**Er bod y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd o ran gwella'i ddull o werthuso perfformiad, nid yw'n gallu barnu'n gyson pa mor dda mae'n perfformio am fod gwendidau'n parhau yn amrediad ac ansawdd ei fesurau perfformiad, a chydbwysedd a chadernid ei ddull o werthuso cynnydd ac effaith**

Mae hunanwerthuso yn nodwedd allweddol o brosesau gwella pob sefydliad. Gall hunanwerthuso da roi sicrwydd a galluogi sefydliadau i farnu pa mor dda maent yn perfformio, a ble mae angen iddynt ganolbwyntio adnoddau er mwyn ysgogi gwelliant. Mae hunanwerthuso effeithiol yn dibynnu ar greu diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn defnyddio gwybodaeth, ac mae'n cynnwys safonau da o ran data ac adroddiadau ar ansawdd a ffocws arnynt, er mwyn galluogi barnu perfformiad.

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Ionawr 2012 adroddais fod angen i'r Cyngor yn ei Adroddiadau Perfformiad blynyddol yn y dyfodol: ddangos yn gliriach sut mae gweithredoedd sydd wedi'u cynllunio yn cyfrannu at ddeilliannau; arfarnu amrediad eang o wybodaeth i roi golwg gyflawn o berfformiad; a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n effeithio'n uniongyrchol ar gyflawni ei Amcanion Gwella. Nododd fy asesiad o Adroddiad Perfformiad 2011-12 y Cyngor er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran sut mae'r Cyngor yn barnu ei berfformiad, mae gwendidau ac anghysonderau'n parhau yn ansawdd a chadernid ei asesu, ac mae angen gwneud mwy o waith o hyd i wella ymdriniaeth ac adrodd.

Mae'r Adroddiad Perfformiad yn rhoi crynodeb da o gynnydd cyffredinol o ran cyflawni ei Amcanion Gwella trwy amlinellu mewn tabl syml faint o ddangosyddion llwyddiant sydd wedi gwella, wedi dirywio neu wedi aros yr un fath rhwng 2010-11 a 2011-12. Mae'r tabl hwn hefyd yn tynnu sylw at fesurau newydd y mae'r Cyngor wedi'u cyflwyno o dan bob Amcan Gwella er mwyn gallu barnu llwyddiant yn well yn y dyfodol. Mae hwn yn grynodeb da ac yn galluogi'r darllenydd i werthuso perfformiad bras y Cyngor mewn cipolwg.

Mae Adroddiad Perfformiad y Cyngor bellach yn cynnwys nifer o sylwadau ar feysydd lle mae cynnydd o ran cyflawni gweithredoedd wedi bod yn araf, neu lle mae perfformiad wedi dirywio. Er enghraifft, o dan yr Amcan Gwella i sicrhau bod plant yn ddiogel, noda'r Cyngor fod perfformiad wedi dirywio ac mae'n amlinellu pam mae hyd wedi digwydd. Adroddais yn flaenorol hefyd fod angen i'r Cyngor gynnwys mesurau'n ymwneud â chefnogi gwasanaethau pobl er mwyn dangos yn well ei waith i gefnogi pobl sy'n agored i niwed i aros yn annibynnol ac atal digartrefedd. Mae'r mesurau hyn wedi'u cynnwys bellach, ac maent yn rhoi dealltwriaeth well i'r darllenydd o waith y Cyngor ac yn gwella'r amrediad gwybodaeth a ddefnyddir i werthuso perfformiad.

Yn yr un modd, o dan yr Amcan Gwella i sicrhau bod pobl yn cael y budd-daliadau y mae hawl ganddynt eu cael, mae'r Cyngor wedi arwain trefniant gwasanaeth budd-daliadau a rennir gyda Chyngor Sir Fynwy i sefydlu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol. Mae adnoddau o fewn gwasanaeth Budd-daliadau Torfaen wedi'u hailbennu i ddarparu cymorth i Sir Fynwy, a thra bod hyn wedi hwyhau amserau prosesu yn y tymor byr, deellir y rhesymau dros hyn ac mae ansawdd cyffredinol ac amserau prosesu bellach yn gwella. Mae hyn yn rhoi dadansoddiad da o weithgarwch, perfformiad ac effaith.

Mae'r dadansoddiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn dangosyddion cenedlaethol wedi'i ddatblygu ymhellach hefyd yn 2011-12. Mae'r Cyngor yn adrodd ei berfformiad gwirioneddol ar gyfer y tair blynedd ariannol ddiwethaf (2009-10 i 2011-12). Mae hefyd yn cymharu ei berfformiad gyda chyfartaledd Cymru, ac mae'n ei osod ei hun yn erbyn y 21 o Gynghorau eraill yng Nghymru ar gyfer 2011-12. Mae'r Adroddiad Perfformiad hefyd yn cynnwys system goleuadau traffig Coch Ambr Gwyrdd (RAG) i ddynodi pa un a yw perfformiad yn gwella, yn dirywio neu'n aros yr un fath. Mae hefyd yn cynnwys graffiau cryno sy'n dangos cyfran y dangosyddion sydd wedi gwella, wedi dirywio neu wedi aros yr un fath yn 2010-11 a 2011-12. At ei gilydd, mae'r Cyngor yn cyflwyno'r wybodaeth hon yn dda, er y gellid ei gwella ymhellach trwy gynnwys newid safle'r Cyngor dros amser i farnu'r gyfradd gwelliant cymharol yn fwy effeithiol.

Fodd bynnag, canfu fy adolygiad nad yw gwerthusiad y Cyngor mewn rhai meysydd yn gyflawn/yn gytbwys nac yn gadarn. Nodais nifer o wendidau fel a ganlyn:

- Nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn datgan yn gyson lle mae perfformiad o ran cyflawni camau gweithredu wedi bod yn wael a gwelliant wedi bod yn gyfyngedig. Er enghraifft, o dan yr Amcan Gwella i sicrhau bod amrediad ac ansawdd tai yn briodol i ddiwallu anghenion pobl, mae'r Adroddiad Perfformiad yn disgrifio cynnydd cyfyngedig o ran cyflawni camau gweithredu, a dirywiad mewn perfformiad rhwng 2010-11 a 2011-12 ar dri o'r pump mesur a ddefnyddir i farnu llwyddiant. Fodd bynnag, nid yw'r gwerthusiad yn adlewyrchu'r sefyllfa hon, ac mae hynny'n gwanhau cadernid yr hunanwerthuso. Yn yr un modd, y mesurau mewn perthynas â'r adolygiad o wasanaethau hamdden ac ar gynnydd i foderneiddio gwasanaethau cam-drin domestig yn rhanbarthol. Er bod yr Adroddiad Perfformiad yn nodi'n glir y

camau a gymerwyd mewn perthynas â'r prosiectau hyn, nid yw'r adroddiad yn dweud a yw'r Cygnor yn gweithio'n unol â'r targed ai peidio, neu beth fu eu heffaith.

- Mewn nifer o Amcanion Gwella mae ffocws y gweithgarwch yn gul iawn ac nid yw'n galluogi asesu cynnydd yn gyflawn. Er enghraifft, mae'r Amcan Gwella i galluogi datblygiad tai da a chynaliadwy ar draws y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys ffocws cul ar: ddatblygu tai newydd; mabwysiadu strategaeth tai leol newydd; cartrefi rhent cymdeithasol yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC); a grantiau adnewyddu yn y sector preifat. Mae pob un o'r meysydd gweithgarwch hyn yn ymwneud â chyflwr ffisegol cartrefi, ac nid oes unrhyw fesurau neu gamau gweithredu wedi'u cynnwys naill ai ar gynaliadwyedd na fforddiadwyedd llety. Mae'r rhain yr un mor bwysig ag ansawdd tai, ac mae'r ffaith nad yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn rhoi darlun rhannol yn unig o ba mor dda mae'r Cyngor yn perfformio.
- Gall gosod targedau fod yn ddull defnyddiol o herio'r sefydliad neu faes gwasanaeth penodol i wneud yn well. Mae adolygu'r perfformiad a gyflawnir mewn perthynas â thargedau yn rhoi gwybodaeth am ba un a yw Amcanion Gwella'n cael eu cyflawni mewn ffordd hwylus a chynlluniedig. Nid yw Adroddiad Perfformiad y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn erbyn unrhyw dargedau, hyd yn oed lle maent yn bodoli. Golyga hyn nad yw'r Cyngor a'i ddinasyddion yn gallu barnu a yw'r Cyngor yn cyflawni'r lefel gwelliannau a fwriadodd wneud.
- Yn ddigon tebyg, nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn rhoi crynodeb cyflawn o gynnydd yn erbyn blaenoriaethau Cymru gyfan. Er enghraifft, un o'r mesurau llwyddiant a adroddwyd mewn perthynas â'r Amcan Gwella i alluogi datblygu tai da a chynaliadwy ar draws y Fwrdeistref Sirol yw'r gyfran o gartrefi sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Noda'r Adroddiad Perfformiad fod cyfran y cartrefi rhent cymdeithasol rhwng 2010-11 a 2011-12 a fodlonodd SATC wedi cynyddu o 33.9 y cant i 56 y cant. Fodd bynnag, nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn nodi yn unman mai targed Llywodraeth Cymru yw i bob cartref fodloni SATC erbyn diwedd blwyddyn galendr 2012, ac mae perfformiad presennol ymhell y tu ôl i'r flaenoriaeth genedlaethol hon.
- Anogir cynghorau i gynnwys yn eu gwerthusiad o'u perfformiad canlyniadau adolygiadau cymheiriaid, asesiadau craffu a ffynonellau gwybodaeth fwy ansoddol eraill fel bodlonrwydd cwsmeriaid â gwasanaethau a data meincnodi. Nid yw'r Adroddiad Perfformiad yn cynnwys digon o ehangder dadansoddi mewn rhai meysydd ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar asesu perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol. Dylai'r Cyngor gynnwys gwybodaeth ychwanegol o'r fath er mwyn hunanarfarnu ei berfformiad yn fwy effeithiol ac adrodd yn fwy cyflawn ar welliant.

Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol ym mis Ionawr 2012 nodais fod mesurau perfformiad a ddefnyddir ar gyfer rhai Amcanion Gwella yn dal yn rhoi gormod o ffocws ar farnu gwelliant mewn prosesau ac nid cyflawni gwell deilliannau i ddinasyddion. Mae fy adolygiad wedi nodi fod gwaith i'w wneud eto ar hyn mewn rhai meysydd. Er enghraifft, mae gweithgarwch o dan yr Amcan Gwella i wella mynediad i wasanaethau gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth gwybodaeth, gwasanaethau eiriol a sut mae dinasyddion yn cael mynediad i wasanaethau. Er bod y rhain i gyd yn fesurau defnyddiol i farnu sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu, nid ydynt yn canolbwyntio ar effaith cyflawni'r camau hyn a pha un a yw defnyddwyr gwasanaeth yn well eu byd o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig am fod AGGCC wedi dod i'r casgliad fod adroddiad y Cyfarwyddwr[1], er ei fod yn esbonio cyd-destun gweithredu'r gwasanaethau cymdeithasol, wedi gweld nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol yn symud o fod yn dda i fod yn wannach dros y tair blynedd diwethaf, gan awgrymu anghysonderau o fewn gwasanaethau.

Yn gadarnhaol, noda AGGCC fod adroddiad Cyfarwyddwr y Cyngor yn rhoi esboniad cynhwysfawr a manwl o'r flwyddyn ddiwethaf, gan nodi'r cyd-destun lleol gyda disgrifiad manwl o'r cyflawniadau a'r heriau y mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi'u hwynebu ac yn parhau i'w hwynebu. Noda AGGCC fodd bynnag fod llwythi achosion mewn gwasanaethau Plant wedi bod yn uchel ac mae'r galw wedi parhau i gynyddu, a gallai hynny ddechrau effeithio ar y sefyllfa sydd eisoes wedi gwella o ran recriwtio a chadw staff. Mae hyn yn creu'r risg y bydd gwasanaethau'n cael eu gorymestyn ac y gallent fethu â diwallu anghenion plant a theuluoedd. Fe wnaeth y gwasanaethau oedolion tanwario ar eu cyllideb trwy gwtogi ar welliannau a gynlluniwyd, ac nid ystyrir bod hyn yn gynaliadwy yn y tymor hwy os yw'r Cyngor yn dymuno parhau i ddarparu gwasanaeth modern ac ymatebol.

Enghraifft arall o ble gellid adrodd yn gliriach am ddeilliannau yw'r Amcan Gwella i annog cynhwysiant cymdeithasol. Yma mae'r dadansoddiad a'r mesurau perfformiad a adroddir yn asesu cynnydd ar nifer o brosiectau a rhaglenni sydd wedi'u cyflwyno i roi cymorth ychwanegol i deuluoedd a gwella sgiliau rhianta. Er bod yr Adroddiad Perfformiad yn rhoi manylion nifer o newidiadau cadarnhaol, fel mwy o ymwybyddiaeth, cofrestriadau a chyfranogiad yn y cynlluniau hyn, nid yw'n darparu unrhyw fesurau o lwyddiant ac effaith y cynlluniau hyn. Mae hyn er gwaetha'r ffaith fod y Cyngor yn ymgymryd ag asesiadau gyda chyfranogwyr sydd wedi arwain at adborth cadarnhaol ar nifer o'r cynlluniau hyn. O ganlyniad mae'n ei gwneud yn anodd mesur o'r Adroddiad Perfformiad pa effaith mae'r gwasanaethau hyn yn ei chael ar deuluoedd lleol y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.

**Mae trefiadau corfforaethol ar gyfer cydlynu ac adrodd ar berfformiad yn cryfhau ond nid yw rhai systemau ar gyfer rheoli perfformiad o fewn gwasanaethau yn gadarn**

Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda os yw i ddarparu gwasanaethau da a'u gwneud hyd yn oed yn well. Mae gan y Cyngor systemau corfforaethol sydd wedi'u sefydlu'n dda, gan ddefnyddio Ffynnon, ar gyfer adrodd am ei berfformiad, ac rydym wedi archwilio'r systemau hyn yn ddiweddar i asesu pa mor effeithiol a dibynadwy yw'r trefniadau hyn. Roedd y mesurau a ddewiswyd i'w harchwilio yn gymysgedd o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Setiau Data Gwella Gwasanaethau, a mesurau lleol a ddatblygwyd gan y Cyngor. Mae pob un o'r rhai a archwiliwyd yn fesurau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i farnu pa mor dda mae'n cyflawni'i Amcanion Gwella, a pha un a yw'n gwneud gwahaniaeth i ddinasyddion.

O'r 23 o fesurau a archwiliwyd, canfuom fod rhaid cymhwyso dau ddangosydd lleol ac roedd angen cywiro un am gamgymeriadau. Mae hwn yn ddirywiad yn y perfformiad o gymharu â 2010-11, gan na nodais unrhyw faterion system ar gyfer rheoli ac adrodd am ddangosyddion perfformiad bryd hynny. Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod wedi diffinio pob un o'i ddangosyddion lleol yn glir, a bydd hynny'n ei alluogi i gofnodi ac adrodd am berfformiad mewn gwasanaethau yn gyson ac yn gywir.

# Cynigion pellach i wella

Awgrymir rhai cynigion newydd i wella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wnaeth yr Awdurdod wrth weithredu'r cynigion a nodir yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

| Cynigion i wella | |
|---|---|
| C1 | Gweithredu'n fwy unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru trwy:<br>• fynegi barn y Cyngor am ei lwyddiant o ran cyglawni ei Amcanion Gwella;<br>• defnyddio sylfaen dystiolaeth ehangach o wybodaeth i alluogi'r Cyngor i asesu pa un a yw wedi bodloni ei Amcanion Gwella; a<br>• chynyddu hygyrchedd dinasyddion a rhanddeiliaid gymaint â phosibl at asesiad perfformiad y Cyngor. |
| C2 | Gwella rhwoli perfformiad drwy:<br>• cryfhau rôl y Pwyllgor Craffu er mwyn ysgogi gwelliant; a<br>• sicrhau bod effaith gweithgarwch yn cael ei fesur yn fwy effeithiol er mwyn barnu deilliannau mewn perthynas â dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth yn well. |

| | |
|---|---|
| C3 | Sicrhau bod pob gwasanaeth yn mynd ati'n gyson i werthuso as adrodd am berfformiad o ran cyflawni amcanion gwella. |

Yn gywir



HUW VAUGHN THOMAS

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cc Carl Sargent, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau